HQ 35. S. 113

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM

## WILLIAM A THOMAS JONES

O'R GILWERN,

LLANAFAN-FAWR, SWYDD FRYCHEINIOG.

William a fu farw Mawrth 12, a Thomas, Mawrth 22, 1837.

## GAN MORGAN MORGANS, IEU.

BLAENYCWM.

---

1 Cawsom rybudd prysur etto,
Wrth ymdeithio is y nen;
Gweled dodi un i orwedd
Yn ei fedd mewn arch o bren;
Gwel'd ei enw, gwel'd ei oedran,
Rhif ei flwyddyn oedd yn wir,
Ar ei arch i wel'd yn amlwg,
Mewn llyth'renau eglur clir.

X20 S 3/1155

2 William Jones, rhyw gyfaill anwyl,
Oedd ef i mi is y rhod;
Ymadawodd a'r byd yma,
Pan yn chwech ar hugain o'd;
Oedran Crist sy weled hefyd,
Pan orphenodd ef ei daith;
Yn y flwyddyn hynod honno,
Mil wyth cant tri deg a saith.

3 Deg o ddyddiau wedi hynny,
Daeth i'm clustiau newydd syn;
Bod ei anwyl frawd, er syndod,
Wedi gorfod myn'd i'r glyn;
Pump ar hugain oedd ei oedran,
'Roedd i'w weled yn ddi ble
Mewn llyth'renau eglur purlan,
Ar ei goffin gwiwlan e'.

4 Un ar ddeg o flwyddau cysson,
Hefyd deugain yn ddiau;
Oedd eu hoedran gyda eu gilydd,
Pan eu rho'w'd mewn ty o glai;
A'u hysbrydoedd a ehedodd,
Fry o flaen yr orsedd fawr;
Hyn sydd im' yn anwybodus,
Ym mhwy ardal maent hwy 'nawr.

5 Er mor goched oedd eu gruddiau,
Er mor hardded oedd eu gwedd,

Maent yn gorwedd heddyw'n isel,
  Ac yn dawel yn y bedd;
Yno byddant yn y graian,
  Ac ni ddont o'u rhwymau'n rhydd,
Hyd nes cano yr archangel,
  Fore'r adgyfodiad ddydd.

6 Pe bai'n rhuo'r holl daranau;
  Swn y clychau o bob tu;
A phe holltai'r cedyrn greigiau,
  Yno'n dawel byddech chwi;
A rhuadau'r holl fwledau,
  Swn dychrynllyd daeargryn,
Yno byddech yn eich beddau,
  Ni ddihunai dim o'r un.

7 Er mor anwyl gan eich gilydd,
  Oeddych yma yn y byd;
Ni bydd yna un gyfeillach,
  Trwy'r holl oesau maith i gyd;
Pawb yn dawel yn y grafel,
  'N ddigon pell o swn y byd,
A'i drallodau a'i ofidiau,
  Sy'n ein blino ni o hyd.

8 'Rwyf i weithiau'n ddig wrth angau,
  Am wnaed y fath greulon waith;
Wedi hynny 'rwy'n ystyrieid,
  Ein bod ninnau ar ein taith;

'Roedd eich dyddiau wedi'u rhifo,
Ac yn pwyso at y nod,
I ymadael â'r byd yma,
A phob trallod is y rhod.

9 Pe ymgasglai'r holl feddygon,
A chyffeiriau goreu'r byd;
Pan bo'r oriau'n yn d'od fynu,
Maent yn methu oll i gyd:
Olwyn fawr yn troi mewn olwyn,
Yn ein dirwyn tu a thre';
Hyn oedd wedi' i ragderfynu,
A'i arfaethu ganddo Fe.

10 Byddai'n hyfryd gennyf wybod,
P'odd ymd'rawsoch yn y dwr;
A gawsoch afael yn yr Iesu,
Oedd Ef i chwi'n Ganol Wr;
Nid oes gennyf fodd i ammeu,
Ei drugaredd mewn un oes;
Pan oedd dan ei loesau chwerwaf,
Cadwodd leidr ar y groes.

11 Golchodd hen Fanasseh waedlyd,
Saul a Tarsus, cofiwn hyn;
Amryw o'r Corinthiaid duon,
Olchodd ef yn hyfryd wyn;
Mae ei waed yn llawn rhinweddau,
Mae yn madden ddydd a nos;

Pwy a wyr na phrof'soch chwithau
O effeithiau gwaed y groes.

12 Yr ych wedi gweled beddyw
Bethau rhyfedd yn ddi oed;
Pethau 'rioed ni welodd miloedd.
Ni ddych'mygodd dyn erioed;
Pethau rhyfedd byd o sylwedd,
Pethau'r tragwyddolfyd draw;
Pethau fyddwn ninnau'n ganfod,
Gyda syndod ddydd a ddaw.

13 'R holl ardalwyr sy'n galaru,
Ac yn wylo'n oer eu cri;
Garedigion, mwyn gyfeillion,
'Roe'ch yn anwyl genym ni;
Pe gwnaem chwilio'r holl 'stafelloedd,
A'r holl gelloedd yn mhob lle,
Yma nid ych ddim i'ch canfod,
Ar y ddaear, is y ne.

14 Awn i fynwent Pantycelyn,
Lle mae'ch beddau'i wel'd yn wir;
Felly byddwn ninnau'r unwedd,
Oll yn gorwedd cyn bo hir;
Yno'n ddistaw yn y graian,
Ac yn cysgu'r dawel hun;
Hyd nes clywo pawb yr alwad,
Ar ddyfodiad Mab y dyn.

15 Yna daw'r holl gyrph i fynu,
Dyna'r dyrfa fwya'r erio'd ;
Oll a welwyd oll a welir,
Oll sydd etto heb eu bod ;
Cant eu barnu gan yr Iesu,
Gant gyfiawnder di-wahan ;
Ca'r cyfiawnion fyn'd i'r nefoedd,
A'r annuwiol fyn'd i'r tân.

16 Pob rhyw Gristion cais dy wisgo
Yn ei holl arfogaeth Ef ;
Cledd yr yspryd i ryfela
Tra f'ot yma is y nef ;
Llef am helm yr iechydwriaeth,
Cais di darian fawr y ffydd ;
Hefyd 'sgidiau y par'toad,
'Rwyt yn siwr o gario'r dydd.

17 Chwithau'r teulu sy'n galaru,
Ymgysurwch yn y Gwr
Ddichon ddal eich penau fynu,
Pan yn croesi rhydiau'r dwr,
Nid oes gwrthrych ar y ddaear,
Dâl ymddiried ynddo'n wir ;
Dyddiau' rhai nid ynt ond byrion,
Dyddiau'r hwyaf nid yw'n hir.

18 'Nawr' rwyn' myned i roi fynu,
Rhag eich blino a fy nghân ;

Ond gobeithio iddynt deimlo,
Gweithrediadau'r Ysbryd Glan;
Ac os darfu iddynt deimlo
Ei effeithiau hyfryd ef,
Mi obeithiaf cawn gyfarfod
Ryw ddiwrnod yn y nef.

19 Bydd yn hyfryd cyd-gyfarfod,
Ym mysg llu angylaidd gor;
Canu'r anthem hynod honno,
'Nol diflanno'r tir a môr;
Yn ol byddo'r ser i syrthio
Bryniau'r ddaear fawr a mân
Wedi llosgi oll yn ulw
Gan effeithiau'r diluw tân.

20 Gwiliwch bawb trwy'r holl gym'dogaeth,
Y mae effaith brenin braw,
I'w eu canfod 'nawr yn hynod,
Trwy'r ardaloedd yma a thraw;
Nid yw'n dyddiau ar y ddaear,
Ond fel t'rawiad gwennol gw'ydd;
Fel y niwl mae yn diflannu,
Gydag awel bore ddydd.

21 Fel blodeuyn mae'n ymddangos,
Yn y bore'n yn hyfryd iawn;
Os daw awel o dir angau,
Fe ddiflanna y prydnhawn;

Nid yw'th dymor ar y ddaear,
  Ond fel cysgod, bryfyn gwael ;
Fel gwlith y mae yn ymado,
  Pan gyfodo gwres yr haul.

22 Chwithau ie'ngctid yr ardaloedd,
  Dwys ystyriwch hyn yn brudd ;
Rhaid i chwithau gwrdd âg angau,
  Ac na wyddoch ddim o'r dydd ;
O am afael ar yr Iesu,
  'R hwn fy farw ar y pren ;
Iddo byddo'r holl ogoniant,
  Parch a moliant byth, amen.

William Rees, Argraphydd, Llanymddyfri.